(b) By **prefixing** *mor*, *mwy*, *mwyaf*, as, *prydfferth* (beautiful), *mor brydfferth* (as beautiful), *mwy prydfferth* (more beautiful), *mwyaf prydfferth* (most beautiful).

NOTE.—In forming the Equal Degree, *mor* or *cyn* is sometimes prefixed, and *ed* added, as, *hardd* (beautiful), *mor hardded* or *cyn hardded* (as beautiful).

Rule 28.—When the Adjective in the Positive Degree ends in **G B** or **D**, the consonants are changed into **C P** and **T** respectively before *ed*, *ach* and *af* are added. Now,

G B D in GwyBeD

become

C P T „ CoPaTy.

Examples :—

<i>Positive.</i>	<i>Equality.</i>	<i>Comparative.</i>	<i>Superlative.</i>
fair, <i>teG</i>	as fair, <i>teCED</i>	fairer, <i>teCACH</i>	fairest, <i>teCAF</i>
wet, <i>gwlyB</i>	as wet, <i>gwlyPED</i>	wetter, <i>gwlyPACH</i>	wettest, <i>gwlyPAF</i>
hard, <i>caleD</i>	as hard, <i>caleTED</i>	harder, <i>caleTACH</i>	hardest, <i>caleTAF</i>
cheap, <i>rhaD</i>	as cheap, <i>rhaTED</i>	cheaper, <i>rhaTACH</i>	cheapest, <i>rhaTAF</i>
rich, <i>cyfoethoG</i>	as rich, <i>cyfoethoCED</i>	richer, <i>cyfoethoCACH</i>	richest, <i>cyfoethoCAF</i>
poor, <i>llawD</i>	as poor, <i>llawTED</i>	poorer, <i>llawTACH</i>	poorest, <i>llawTAF</i>
numerous, <i>lluosoG</i>	as numerous, <i>lluosoCED</i> or <i>mor lluosog</i>	more numerous, <i>lluosoCACH</i> or <i>mwy lluosog</i>	most numerous, <i>lluosoCAF</i> or <i>mwyaf lluosog</i>
important, <i>pwysig</i>	as important, <i>pwysiced</i> or <i>mor bwysig</i>	more important, <i>pwysicACH</i> or <i>mwy pwysig</i>	most important, <i>pwysicAF</i> or <i>mwyaf pwysig</i>

EXERCISE XXIX.

than,	<i>nag</i>	stone,	<i>careg</i>
town,	<i>tref</i>	country,	<i>gwlad</i>
to-day,	<i>heddyw</i>	English,	<i>Saeson</i>
yesterday,	<i>ddoe</i>	people,	<i>pobl</i>
bread,	<i>bara</i>	case,	<i>achos</i>

Translate into Welsh :—

1 She is fairer than her brother. 2 He is the richest man in the town. 3 It is more wet to-day than yesterday. 4 The bread is as hard as a stone. 5 The horse is cheap, but the cow is cheaper. 6 I am richer than my brother. 7 There is not a poorer man in the country. 8 The English are the most numerous people in America. 9 It was the most important case.

EXERCISE XXX.

The Degrees of Comparison.

<i>mêl,</i>	honey	<i>ffol,</i>	foolish	<i>cyflym,</i>	swift
<i>cyfaill,</i>	friend	<i>neb,</i>	anyone, or	<i>gwynt,</i>	wind
<i>anwyl,</i>	dear		nobody	<i>dillad,</i>	clothes
<i>gwyned,</i>	as white	<i>na'r,</i>	than the	<i>haul,</i>	sun
<i>hen,</i>	old	<i>hardd,</i>	beautiful	<i>lleiaf,</i>	smallest
<i>goreu,</i>	best	<i>goleuni,</i>	light	<i>doeth,</i>	wise
<i>caredig,</i>	kind	<i>ysgol,</i>	school	<i>dy,</i>	thy

Translate into English :—

1 Melusach yw na'r mêl. 2 Solomon oedd y doethaf o ddynion. 3 Ei ddillad oedd cyn wyned a'r goleuni. 4 Harddach yw na'r haul. 5 Yr wyf fi yn hen, yr wyt ti mor hyned, mae Dafydd dy frawd yn hynach, ond Rhys sydd hynaf. 6 Iago bach yw y lleiaf o'r plant. 7 Efe oedd fy nghyfaill anwylaf. 8 Hi ydoedd yr eneth oreu yn yr ysgol. 9 Mae Tomos mor ddoethed a'i dad. 10 Yr oedd William fy mrawd yn ffolach na neb. 11 Cyflymach yw y goleuni na'r gwynt. 12 Dy fam sydd fwyaf caredig i ti.

SINGULAR NUMBER 2ND PERSON
(*Ail Berson Unig*).

thou	}	<i>ti</i>
thee		<i>tydi</i>
		<i>tithau</i>

PLURAL NUMBER 2ND PERSON
(*Ail Berson Lluosog*).

you	}	<i>chwi</i>
		<i>chwithau</i>
		<i>chwychwi</i>

Di, dithau, are modified forms, as, *Ni chei DI* ('Thou shalt not').

SINGULAR NUMBER 3RD PERSON
(*Trydydd Person Unig*).

Masculine Gen. Feminine Gen.

he	}	<i>ef</i>	she	}	<i>hi</i>
him		<i>efe</i>	her		<i>hithau</i>
		<i>yntau</i>			

PLURAL NUMBER 3RD PERSON
(*Trydydd Person Lluosog*).

Common Gen.

they	}	<i>hwyn, hwy</i>
them		<i>hwynthwy</i>
		<i>hwythau</i>

Nhw, nhwy, are colloquialisms, as, *Mae NHW'n dweyd*, which means, *Maent HWY yn dweyd* (They say).

NOTE.—“It” is represented in Welsh by *ef* or *hi*, according as the word for which it stands is masculine or feminine.

THE PERSONAL PRONOUN (RHAGENW PERSONOL).

Rule 29.—In Welsh, the Personal Pronouns are not always expressed with the Personal Verbs. But if the emphasis is to be laid on them, they must be used.

<i>Yr wyf yn dlawd,</i>	I am poor
<i>Yr wyf FI yn dlawd,</i>	I am poor
<i>Yr oedd yn yr ysgol,</i>	He was in school
<i>Yr oedd EFE yn yr ysgol,</i>	He was in school

EXERCISE XXXII.

happy,	<i>dedwydd</i>	children,	<i>plant</i>
short,	<i>byr</i>	with him,	<i>gydag ef</i>
dog,	<i>ci</i>	Where?	<i>pa le?</i>
after me,	<i>ar fy ol</i>	before us,	<i>o'n blaen ni</i>
after them,	<i>ar eu hol</i>	long,	<i>hir</i>
brave,	<i>deur</i>	to her,	<i>gyda hi</i>
soldier,	<i>militwr</i>	tired of,	<i>wedi blino ar</i>
away,	<i>ymaith, ffurdd</i>	angry with,	<i>wedi ffromi wrth</i>
Who?	<i>prwy?</i>		

Translate into Welsh :—

1 They are happy. 2 It will be short. 3 The dog was after me. 4 I am a brave soldier. 5 She has been away. 6 Who art thou? 7 The children are with him. 8 Where have you been? 9 Will they be there before us? 10 We shall not be long after them. 11 Have you been to her? 12 I was tired of thee, or I was angry with thee.

THE VERB *BOD* (TO BE).

INDICATIVE MOOD (MODD MYNEGOL).

AMSER PRESENOL.

PRESENT TENSE.

Singular (Unigol).

Plural (Lluosog).

<i>uyf, ydwyf,</i>	I am		<i>ym, ydym,</i>	we are
<i>wyl, ydwyt,</i>	thou art		<i>yeh, ydyeh,</i>	you are
<i>yw, ydyw, mae,</i>	he, she, or it		<i>ynt, ydynt, maent,</i>	they are
<i>oes, sydd,</i>	is			

AMSER ANORPHENOL.

IMPERFECT TENSE.

<i>oeddwn, byddwn, bawn,</i>	I was		<i>oeddym, byddem, baem,</i>	we were
<i>oeddit, byddit, bait,</i>	thou wast		<i>oeddych, byddech, baech,</i>	you were
<i>oedd, byddai, bai,</i>	he was		<i>oeddych, byddent, baent,</i>	they were

AMSER GORPHENOL.

PERFECT TENSE.

<i>brwm, buais,</i>	I have been		<i>buom, buason,</i>	we have been
<i>buost, buaist,</i>	thou hast been		<i>buoch, buasoch,</i>	you have been
<i>bu,</i>	he, &c., has been		<i>buont, buasant,</i>	they have been

AMSER TRAGORPHENOL.

<i>buaswn,</i>	I had been
<i>buasit,</i>	thou hadst been
<i>buasai,</i>	he had been

PLUPERFECT TENSE.

<i>buasem,</i>	we had been
<i>buasech,</i>	you had been
<i>buasent,</i>	they had been

AMSER DYFODOL.

<i>byddaf,</i>	I shall <i>or</i> will be
<i>byddi,</i>	thou shalt <i>or</i> wilt be
<i>bydd,</i>	he, &c., shall <i>or</i> will be

FUTURE TENSE.

<i>byddwn,</i>	we shall <i>or</i> will be
<i>byddwch,</i>	you shall <i>or</i> will be
<i>byddant,</i>	they shall <i>or</i> will be

IMPERATIVE MOOD (MODD GORCHYMYNOL).

BE.

<i>byddwyf,</i>	let me be	<i>byddwn (ni),</i>	let us be
<i>bydd,</i> or <i>bydd di,</i>	be <i>or</i> be thou	<i>byddwch (chwi),</i>	be <i>or</i> be ye
<i>bydded (or boed),</i>	let him be	<i>byddant, byddont,</i>	} let them be
		<i>byddent (hwy)</i>	

NOTE.—Some grammarians use *oeddem, oeddech, oeddent,* as well as *oeddym, oeddych, oeddynt,* in the Imperfect Tense.

DIFFERENT FORMS OF THE VERB *BOD*.

The different forms of the Verb *Bod* present some difficulty to the learner. Thus:—

3RD PERSON SINGULAR.

English—He is, she is, it is.

Welsh—*Yw, ydyw, mae, oes, sy, sydd.*

3RD PERSON PLURAL.

They are.

Ynt, ydynt, maent, oes, sydd.

Each word, however, expresses a different shade of meaning.

Yw, ydyw (Singular), and *ynt, ydynt* (Plural) are different forms of the same word, and come between two Nouns (or Pronouns), or between a Noun (or Pronoun)

and an Adjective. This form of the Verb *Bod* is often used to make the Predicate the most prominent part of the sentence. Thus :—

LLYFR DA YW *hwn* (THIS IS A GOOD BOOK).

GWEISION YDYNT *hwy* (THEY ARE SERVANTS).

Sy, or *sydd* (Singular and Plural) comes after the Subject, and makes that more prominent.

HYN *sydd dda* (THIS IS GOOD).

It is used, too, when the Relative Pronoun is employed.

Y plant SYDD YN CHWAREU (It is the children WHO ARE PLAYING).

Y dyn SYDD YN *y ty fu yma dda* (It is the man WHO IS IN the house that was here yesterday).

Nid Dafydd SYDD OREU (David is not THE ONE WHO IS BEST).

Mae, or *Y mae*, begins a sentence, or clause, and thus has its subject following it.

MAE *y ferch yma* (The girl is here).

MAENT *wedi dyfod* (They have come).

Y MAE *hwn yn iawn* (This is right).

Oes is used in asking a question, or is joined to the negative No or Not, in sentences beginning with "there."

A OES *genych lyfr* ? (HAVE you a book ?)

NID OES *un yma* (THERE IS NOT one here).

NID OES *ysgol yfery* (THERE IS NO school to-morrow).

EXERCISE XXXIII.

Write out ten Verbs in English, and give their Welsh equivalents.

EXERCISES ON THE VERB *BOD*.*Vocabulary to Exercises.*

<i>amddifad,</i>	without parents	<i>gonest,</i>	honest
<i>bachgen,</i>	boy	<i>goreu,</i>	best
<i>buan,</i>	soon	<i>gwell,</i>	better
<i>caeredig,</i>	kind	<i>ieuanç,</i>	young
<i>chwi,</i>	you	<i>llawen,</i>	merry
<i>chwaer,</i>	sister	<i>llwyddianus,</i>	successful
<i>cyfaill,</i>	friend	<i>llyfr,</i>	book
<i>cyfiawn,</i>	} just, the just	<i>milwr,</i>	soldier
<i>y cyfiawn</i>		<i>mur,</i>	wall
<i>Cymro,</i>	Welshman	<i>ni,</i>	we
<i>cyfoethog,</i>	rich	<i>plentyn,</i>	child
<i>da, y da,</i>	good, the good	<i>plant,</i>	children
<i>dedwydd,</i>	happy	<i>prudd,</i>	sad
<i>deur,</i>	brave	<i>rhydd,</i>	free
<i>diog,</i>	lazy	<i>sut,</i>	how
<i>doe,</i>	yesterday	<i>tlawd,</i>	poor
<i>y drygionus,</i>	the wicked	<i>ty,</i>	house
<i>dyn,</i>	man	<i>usfydd,</i>	obedient
<i>dysgedig,</i>	learned	<i>yno,</i>	there
<i>efe,</i>	he	<i>yfory,</i>	to-morrow
<i>eich,</i>	your	<i>ysgol,</i>	school
<i>erioed,</i>	ever	<i>ysgolheigion</i>	scholars
<i>ffyddlon,</i>	faithful		

NOTE.—*Yr* is generally placed before *wyf, ydwyf* (I am), *wyt, ydwyt* (thou art), *ym, ydym* (we are), *ych, ydych* (you are), *ynt, ydynt* (they are), *oeddw'n* (I was), *oeddit* (thou wast), *oedd* (he, she, or it was), *oeddym* (we were), *oeddych* (you were), *oeddynt* (they were), and generally all forms of *oedd* and *wyf*, when these words begin a sentence or phrase. In the same way *Y* is often placed before *mae*, as "*Y mae efe yma*" (He is here).

EXERCISE XXXIV.

Translate into English :—

1 *Yr wyf yn llawen.* 2 *Y mae fy chwaer yn y tŷ.* 3 *Yr wyt yn brudd.* 4 *Ni fuost yn ddiwyd, Dafydd.* 5 *Byddant yn blant da yn yr ysgol.* 6 *Bydd y plentyn yn well*

yfory. 7 Byddaf yn gyfaill i chwi. 8 Os byddwch yn onest, chwi fyddwch yn ddedwydd. 9 Yr ydym yn gyfeillion i ddynion da. 10 Ni buasant yn dlawd pe buasant yn ddiwyd. 11 Buoch yn garedig i'r plentyn amddifad. 12 Oeddech chwi yn y dref ddoe? 13 Oedd Dafydd yno? 14 Ni fuom yn fwy llwyddianus erioed. 15 Byddwn yno yfory. 16 Efe yw brawd William.

EXERCISE XXXV.

Translate into Welsh :—

1 We are joyful. 2 Ye are sad. 3 I am a Welshman. 4 The good are happy. 5 The wicked man will be sad. 6 If ye are good, ye are rich. 7 If thou wilt be diligent, thou wilt be learned. 8 They were poor because they had been lazy. 9 They have been young, now they are old. 10 We were on the wall. 11 Hast thou been in school to-day? 12 I was better than you. 13 How are you to-day? I am better. 15 They will always be your friends.

EXERCISE XXXVI.

Imperative Mood.

Translate into English :—

1 Bydded y bachgen yn garedig. 2 Byddwch ufydd, blant. 3 Bydd ddiwyd, Thomas. 4 Byddant (boent) yn ddedwydd. 5 Bydded eich brawd yn ffyddlon.

EXERCISE XXXVII.

Translate into Welsh :—

1 Be obedient scholars. 2 Be faithful friends. 3 Be honest, be just. 4 Be brave soldiers. 5 Let the boys be free, let them be happy.

EXERCISES ON THE PARTS OF SPEECH.

Vocabulary to Exercises XXXVIII. to XLI.

<i>a, ac,</i>	and	<i>mai,</i>	that (Relative)
<i>ag,</i>	with	<i>mewn,</i>	in
<i>acw,</i>	there	<i>na, nas,</i>	} no, nor, not
<i>agos,</i>	near	<i>nac, nad,</i>	
<i>allan,</i>	out	<i>ni, nis,</i>	
<i>am,</i>	about	<i>na, nag</i>	than
<i>ar,</i>	on	<i>nage,</i>	no
<i>at,</i>	to	<i>nawr, yn awr,</i>	now
<i>boreu,</i>	early	<i>O,</i>	Oh
<i>buan,</i>	soon	<i>ond,</i>	but
<i>bychan,</i>	small	<i>o'r goreu,</i>	very well
<i>call,</i>	wise	<i>os,</i>	if
<i>canys,</i>	because	<i>pan,</i>	when
<i>cerdded,</i>	walk	<i>pa le?</i>	where?
<i>cloch,</i>	bell	<i>pell,</i>	far
<i>chwi,</i>	you	<i>pob amser,</i>	always
<i>darllen,</i>	read	<i>pren,</i>	tree
<i>dewis,</i>	choose	<i>rhwng,</i>	between
<i>digon,</i>	enough	<i>siarad,</i>	speak
<i>ddoe,</i>	yesterday	<i>sut,</i>	how
<i>dros,</i>	over	<i>tal,</i>	tall
<i>dyn,</i>	man	<i>tan,</i>	under
<i>efe,</i>	he	<i>tref,</i>	town
<i>er,</i>	though	<i>trên,</i>	train
<i>eto,</i>	again, yet	<i>troed,</i>	foot
<i>fel,</i>	so, that, like	<i>trwy,</i>	through
<i>gan,</i>	with	<i>weithiau,</i>	sometimes
<i>glân,</i>	clean	<i>wrth,</i>	by
<i>heddyw,</i>	to-day	<i>y, yr,</i>	the
<i>hefyd</i>	also	<i>yfory,</i>	to-morrow
<i>hi,</i>	she, her	<i>yma,</i>	here
<i>hwy,</i>	they, them	<i>yn,</i>	in
<i>iawm,</i>	very	<i>yna,</i>	then
<i>ie,</i>	yes	<i>yno,</i>	there
<i>llaw,</i>	hand		

Rule 30.—Adjectives are changed into Adverbs by prefixing *yn*, as, *buan* (quick), *yn fuan* (quickly).

NOTE.—For the change in the initial consonant, see the Introductory Chapter on the Mutation of Consonants.

EXERCISE XXXVIII.

(b) Give the following Adverbs in Welsh :—

When, always, now, soon, early, to-day, where, here, there, near, far, out, not, only, how, very, enough, well, then, there.

EXERCISE XXXIX.

(a) Write down these Prepositions, and give their English equivalents :—

Wrth, yn, mewn, at, am, gan, dros, ar, tan, trwy, rhwng.

(b) What Parts of Speech are :—

Hefyd, canys, nac, nag, mai, eto, nid, fel, er.

EXERCISE XL.

(a) Make sentences in Welsh containing the words given in Exercise XXXIX (b).

(b) Translate these sentences into English.

EXERCISE XLI.

Say what Parts of Speech the following words are, and give their English equivalents :—

Dyn, hi, ond, yr, call, ac, eto, yn, mewn, yma, os, fel, darllen, chwi, bychan, tref, tal, trên, yn awr, cerdded, ie, nage, O, trwy, llaw, troed, siarad, y, efe, a, weithiau, glân, hwy, dewis, pren, doe, yfory, clôch, hefyd, sut, yna.

PART II.

EXERCISES FOR TRANSLATION.

NOTE.—In the worked translations given, it should be noted that where the idiom of the two languages differs, or where the words in the Welsh phrase are not placed in the same order in English, the literal translation may be found by comparing the words printed in the same type. Thus in the fifth example given below :—

<i>country,</i>	<i>y wlad</i>
AIR,	AWYR
[is],	[mae]
healthy,	yn iachus

Good *morning*, sir ; how are you to-day ?
Boreu da, syr ; pa sut yr y'ch chwi heddyw ?

Where have you been ? I have been at Swansea for a week.
 Pa le y buoch ? Bum yn Abertawe am wythnos.

The old man HAD BEEN here before you yesterday.
 BUASAI *yr hen ddyd* yma o'ch blaen chwi ddoe.

It is *fine* WEATHER to-day after the *heavy* RAIN.
 Mae hi'n DYWYDD *hyfryd* heddyw ar ol y GWLAW *trwm*.

Yes, and the *country* AIR [is] *very* healthy.
 Ydyw, ac [mae] AWYR *y wlad* yn iachus *iawn*.

The waves *of the sea* [were] rough *last week*
 Tonau *y môr* [oeddynt] eirwon yr wythnos *ddiweddaf*.
 or [Yr oedd] tonau *y môr* yn eirwon yr wythnos *ddiweddaf*.

We had a very *rough* VOYAGE in our *ship*.
 Cawsom FORDAITH *arw* iawn yn ein *llong* ni.

Where is the office? It is a hundred yards further.
Pa le mae y swyddfa? Mae gan' llath yn mhellach.

Which is the *nearest* road? This one on the left.

Pa un yw y ffordd *nesaf*? Hon ar yr aswy.

What is your occupation? Can you do this?

Beth yw eich galwedigaeth chi? A ellwch chi wneud hyn?

Have *you* been to the market? Yes, this-morning.

A fuoch *chwi* yn y farchnad? Do, boreu-heddyw.

I shall be going again *to-morrow* morning. Will *you* come?

Byddaf yn myned eto boreu *yfory*. A ddeuwch *chwi*?

How much a pound is *this* VEAL? and the beef?

Pa faint y pwys yw y CIG LLO *yma*? a'r cig-eidion?

Here is a very *good* LOIN of lamb for you.

Dyma LWYN *dda* iawn o gig-oen i chi.

What is the price of this *goose*? and *that* DUCK?

Beth yw pris yr *wydd* yma? a'r HWYAD *yna*?

You were *not* in school yesterday I believe.

Nid oeddych yn yr ysgol ddoe yr wyf yn credu.

(Literally, I am believing.)

I was at home all day. I was *not* well.

Yr oeddwn gartref drwy'r dydd. *Nid* oeddwn yn iach.

Have you written your lessons all to-day?

A ydych *wedi ysgrifenu* eich gwersi i gyd heddyw?

Yes. I have been *showing* them to the teacher now.

Ydwyf. Bum *yn eudangoshwy* i'r athraw yn awr.

Shut the door and open the window, if you please.

Cauwch y drws ac agorwch y ffenestr, os gwelwch yn dda.

Did *you* see the *red* blood on the face of the *big* boy?

A welsoch *chwi* y gwaed *coch* ar wyneb y bachgen *mawr*?

The shepherd *took* the girls with him to the mountains.

Cymerodd y bugail y merched gydag ef i'r mynyddoedd.

When will they return? I cannot say. Sometime to-night.
 Pabryd y dychwelant? *Nis* gallaf ddweyd. Rhywbryd heno.

They will be happy at their AUNT'S *house* with the children.
 Byddant yn ddedwydd yn *nhy* eu MODRYB gyda'r plant.

He was there yesterday, but *SHE* will *not* be here to-day.
 Yr oedd *ef* yno ddoe, ond *ni* bydd *HI* ymaheddyw.

Is the *little* girl in the house now? No.
 A ydyw yr eneth *fach* yn y tŷ yn awr? Nac ydyw.

Where is she? She has gone down to the town.
 Pa le y mae hi? Mae wedi myned i lawr i'r dref.

What time will she return? About five o'clock.
 Pa amser y dychwela? Oddeutu pump o'r gloch.

I will come in at six o'clock. *Very* good.
 Deuaf i fewn am chwech o'r gloch. *Da iawn.*

She will be *glad* to see you. I am sure.
 Bydd *yn dda* ganddi eich *gweled*. Yr wyf yn sicr.

Who is the owner of *that* BIG house on the hill?
 Pwy yw perchen y tŷ MAWR *yna* ar y bryn?

Is the big red *cow* in the garden again to-day?
 A ydyw y *fuwch* fawr goch yn yr ardd eto heddyw?

I.—Y GLOWR (THE COLLIER).

[Mae] llawer rhan o Gymru yn gyfoethog *iawn* mewn glo,
 Many parts of Wales [are] *very* rich in coal,
 ac [enilla] NIFER *fawr* o ddynion eu bywoliaeth wrth dori
 and a *large* NUMBER of men [earn] their living by cutting
 y glo *hwn* yn y PYLLAU *dyfnion*. *Nis* gall GOLEU gyrhaedd
this coal in the *deep* PITS. *No* LIGHT can reach
 yno oddi allan, a [rhaid] i'r glowyr, fel y *gelwir* y
 there from outside, and the colliers, as these men

dynion hyn wneud eu gwaith wrth oleu
are called [have] to do their work by the light of
 eu canwyllau neu eu lampau. [Mae] *gwaith* y GLOWR
 their candles or of their lamps. The COLLIER'S *work* [is]
 yn aml yn *un* peryglus IAWN. Weithiau [daw]
 often a VERY dangerous *one*. Sometimes *large*
 darnau *mawrion* o lo a phridd yn rhydd,
 pieces of coal and earth [become] loose,
 a syrthiant ar y dynion sydd yn gweithio,
 and fall upon the men who are working,
 gan eu lladd neu eu niweidio. Ond gelyn *gwaethaf*
 killing or injuring them. But the *worst* enemy
 y glowyr yw y nwy sydd yn dyfod o'r glo.
 of the colliers is the gas which issues from the coal.
 [Mae] y nwy *hwn* weithiau [yn casglu] mewn SYMIAU
This gas sometimes [collects] in *large*
mawrion yn y *pwll-glo*, ac yn ffrwydro fel pylor,
 QUANTITIES in the coal-*pit*, and explodes like gunpowder,
 gan ddryllio ochrau a nen y manau
 shattering the sides and roof of the places
 lle [mae] y dynion yn gweithio, a gwenwyno yr awyr.
 where the men [are] working, and poisoning the air.
 [Lleddir] nifer *fawr* o ddynion weithiau
 A *large* number of men [are] sometimes [killed]
 gan y ffrwydriadau *hyn*, a [gwneir] eu gwagedd a'u plant
 by *these* explosions, and their wives and children
 yn weddwon ac amddifaid. *Allforia* Caerdydd mwy
 [are made] widows and orphans. Cardiff *exports* more
 o lo i wledydd *ereill* nag unrhyw dref yn y byd.
 coal to *other* countries than any town in the world.

2.—LLINELLAU GYDA CHARDEN BLWYDDYN NEWYDD.

'Rhen Flwydd ar ben ei thaith	Y Newydd Flwydd sy'n d'od! Fe gwyd ei haul!
Yn fuan fydd,	Dy obeith, gwnaed o'i chod,
Ei heira dôdd, a daeth	Gyflawni'n hael!
Ei holaf ddydd!	Rho'ed eurglych hon yn
Aed gyda hi o'th fron	rhwydd
D' ofidiau oll;	Pob hoen yn lli,
Ac it, fel eira hon,	Pob cysur rho'ed, pobllwydd,
Aed poen ar goll.	Fy ffrynd, i ti!

LINES WITH A NEW YEAR'S CARD.

The Old Year quickly goes,	The New Year comes! Soon will
It fades away:	Its sun now shine!
All melted are its snows	May it for thee fulfil
Dawned its last day!	All hopes of thine!
May with it fade for thee	May gold-bells gladly ring
All pain, all woe;	Joy without end;
And all thy troubles be	May it all comfort bring
Gone, like its snow!	To thee, my friend!

NOTES AND EXPLANATIONS.

'Rhen Flwydd (yr Hen Flwyddyn), the Old Year	<i>gobeith</i> (pl. of <i>gobaith</i> , <i>gobeith-</i> <i>ion</i>), hopes
ar ben ei thaith, at the end of its journey	<i>cod</i> , purse, store
<i>dodd</i> (<i>toddodd</i>), melted	'n hael (<i>yn hael</i>), freely, generous
<i>eira</i> , snow	<i>rho'ed</i> (<i>rhodded</i>), let it or them give
<i>daeth</i> , has come	<i>hoen</i> , joy
<i>aed</i> , let them go	<i>lli</i> , plenty
<i>bron</i> , breast	<i>go</i> , <i>myned</i>
<i>D' (dy)</i> , thy	fade, <i>diflanu</i>
<i>it (i ti)</i> , to thee	dawn, <i>gwawr</i>
<i>Y Newydd Flwydd (y Flwyddyn</i> <i>Newydd)</i> , the New Year	woe, <i>gwae</i>
<i>cyd</i> (<i>cyfyd</i>), will rise	shine, <i>dysgleirio</i>
	joy, <i>llawenydd</i>

3.—YR HEN GYMRY (THE OLD WELSH).

NOTE.—Every word in the Exercises from here to the end will be found in the Vocabulary at the end of the book. Note the special directions given at the beginning of the Vocabulary.

<i>yr oedd ganddo,</i>	there was with		<i>yr oedd arno ofn,</i>	there was
him, he had			fear on him, he was afraid of	

Yn yr hen amser, Cymry oedd yn byw trwy yr holl Ynys hon. Eu plant hwy ydym ni, a'u hiaith hwy ydym yn siarad.

Yr oedd yr hen Gymro yn hardd a chryf. Am dano yr oedd gwisg o lian, o bob lliw. Am ei wddf ac am bob braich yr oedd modrwy o aur neu o arian.

Medrai wneud basgedi a llestri pridd, ac yr oedd yn ei wlad weithydd plwm ac alcan.

Yr oedd ganddo lawer o wartheg a moch, a cheffylau luan, a chwn hela. Yr oedd ganddo hefyd ychain i aredig, a gwenith gwyn yn tyfu yn ei gae. Rhwytaï ar hyd yr afonydd a'r llynoedd mewn cwch o wiaï, ond yr oedd arno ofn y môr.

Nid oedd yr hen Gymry yn byw mewn tref neu ddinas gyda'u gilydd. Codai pob un ei dŷ lle y mynai ef, ar lan yr afon, neu ar ochr y bryn, neu yn nghanol y coed. Coed oedd muriau y tai, a gwellt neu eithin oedd y to.

Ond i ba le yr aent pan ddoi y gelyn? Yr oedd ganddynt gaer ar ben bryn neu graig serth, a rhedent yno pan welent y gelyn yn d'od.

O gaer i gaer yr oedd ffyrdd yn rhedeg ar hyd penau'r brynïau. Cynhelid ffeiriau lle y byddai'r ffyrdd yn croesi eu gilydd, ac yno yr oedd adrodd penillion, a chware'r delyn, a chanu a dawnsio.

Rhai dewr oedd yr hen Gymry, a hael a charedig, yn caru eu gwlad, ac yn hoff o'u gilydd; ac felly y dylem ninâu fod. Ond yr oeddynt yn hoff o ymladd, ac yn newid eu meddwl yn rhy aml, ac ni allent uno â'u gilydd i wneud un gwaith mawr; ac nid felly y dylem ni fod.

4.—OLWEN.

When two Nouns come together the second is placed in the Possessive Case, as—

pan weli, when thou seest
Milwyr Arthur Fawr, the
warriors of Arthur the Great.
Arthur the Great's warriors.

gwelid, then was seen
bedd Mam Cilhwch the grave
of the mother of Cilhwch.
Cilhwch's mother's grave.

Un o filwyr Arthur Fawr oedd Cilhwch. Bu ei fam farw pan oedd ef yn blentyn bach. Cyn marw, dywedodd ei fam wrth ei dad :—"Cymer ofal mawr o'r baban, a phan ddaw yn ddyn chwilia am wraig iddo. A hyn fydd yn arwydd i ti: tyred at fy medd bob bore, a phan weli fieren yn tyfu yno, a dau flodyn gwyn arni, y mae yn bryd i ti chwilio am wraig i'r mab." Ac yna bu farw mam Cilhwch, a dodwyd hi yn y bedd, ac yr oedd galar mawr ar ei hol.

Yn mhen llawer o flynyddoedd, gwelid dau flodyn gwyn yn tyfu ar fedd mam Cilhwch; a meddyliodd ei dad mai Olwen fyddai y wraig oreu iddo. Ond yr oedd Olwen yn byw yn mhell oddiyno, y tuhwnt i lys Arthur; a dacw Cilhwch yn cychwyn i chwilio am dani. Yr oedd ei farch yn gryf a buan, gyda chyfrwy aur ac awenau o ddolenau aur. Yn llaw y llanc yr oedd picell arian, a chleddyf aur ar ei glun. Yr oedd llafn y cleddyf o'r un lliw a mellten, a miniog iawn oedd. O flaen y march yr oedd dau filgi, yn rhedeg yn ol ac yn mlaen mor gyflym a dwy wenol y môr; ac yr oedd y march yn cerdded mor ysgafn fel mai prin y plygai y glaswellt dano.

A daeth Cilhwch i gartref Olwen; a hi oedd y brydferthaf yn y byd. Gwisg o sidan fflamgoch oedd am dani, a chadwen o aur melyn am ei gwddf, a pherlau dysglaer. Melynach oedd ei phen na blodau y banadl. Gwynach oedd ei chroen nag ewyn y don. Tecach oedd ei dwylaw a'i bysedd na'r blodau wrth ffynon y weirglawdd. Dysgleiriai ei llygaid fel llygaid yr hebog. Gwynach oedd ei dwyfron na bron yr alarch gwyn. Cochach oedd ei deurudd na'r rhosyn cochaf. Pedair meillionen wen a dyfai pale bynag y rhoddai hi ei throed, ac am hyny y gelwid hi Olwen.

5.—PEREDUR.

Mab Efrog, brenin yn y gogledd, oedd Peredur. Yr oedd gan Efrog saith o feibion, a Pheredur oedd yr ieuangaf o honynt i gyd. Yr oedd ei dad a'i frodyr yn hoff o ryfel, ac o dro i dro lladdwyd hwynt bob un. Gartref gyda'i fam yr oedd Peredur, ac yr oedd arni ofn mai myned i'r rhyfel wnai yntau pan ddelai yn ddyn; ac am hyny hi a'i cymerodd i fyw i ganol coedwig, fel na fedrai weled rhyfel a rhyfelwyr.

Ond rhyw ddiwrnod, daeth tri o farchogion Arthur ar ddamwain trwy'r goedwig ar eu ceffylau, a'u gwisg o ddur gloyw am danynt, a'u picellau hirion yn eu dwylaw. "Beth ydyw y rhai acw, mam?" meddai Peredur. "Angylion, fy machgen i," meddai hithau. Ac ebai Peredur, "A gaf finau fod yn angel hefyd pan ddof yn fawr?" Rhoddodd y plentyn ei fryd ar fod yn filwr; ac wedi tyfu i fyny yn llencyn tal cymerodd farch ac arfau, ac aeth ar ei daith trwy'r wlad i achub cam y gwan a'r tlawd. Ac aeth son am dano trwy'r byd.

Ar derfyn un dydd daeth i ddyffryn. Ac yn mhen y dyffryn yr oedd cell meudwy; ac yno y bu y noson hono, a charedig fu y meudwy wrtho. Boreu dranoeth cododd oddiyno. Ac yr oedd cawod o eira wedi disgyn yn y nos, ac wedi gorchuddio y dyffryn. Ac yr oedd gwalch wedi lladd hwyad yn mhen y gell, ond diangodd y gwalch pan glywodd swm ceffyl Peredur. A disgynodd bran ar gig yr aderyn. A safodd Peredur i edrych ar y fran oedd mor ddu, a'r eira mor wyn, a'r gwaed mor goch. A meddylodd am yr eneth a garai fwyaf, oedd a'i gwallt yn ddu fel y fran, a'i chnawd yn wyn fel yr eira, a thebyg oedd y gwaed ar yr eira i'r gwrid oedd yn ei gruddiau.

A phan oedd yn myfyrio fel hyn, daeth marchogion Arthur heibio. Tarawodd Lai ef a'i bicell, ond tarawodd Peredur ef yn ol nes oedd yn rhoio yn yr eira. Ond dywedodd Gwalchmai yn deg wrtho, ac aeth Peredur gyda hwynt tua llys Arthur.

6.—MARWOLAETH ARTHUR FAWR (THE DEATH OF ARTHUR THE GREAT).

Yn mrwydr Camlan y bu farw Arthur. Y bradwr Modred a roddodd y clwyf marwol iddo. Wedi iddo gael ei glwyfo, **cariodd** dau filwr dewr ef o'r frwydr i lan y llyn. Tynodd Arthur ei gleddyf Caledfwlch allan, a dywedodd wrth un o'r milwyr :—"Dos, a thafi y cleddyf hwn i'r llyn." Aeth y milwr at lan y llyn, ond pan welodd mor hardd oedd y cleddyf, a chymaint o emau oedd ar ei garn, cuddiodd ef yn yr hesg. Daeth yn ol at Arthur. "A deflaist ti ef?" meddai'r brenin. "Do," ebai'r milwr. "Beth welaist ti?" "Welais i ddim," ebai'r milwr wed'yn, "ond y tonau a'r gwyntoedd." "Yr wyt yn dweyd anwiredd," ebai Arthur; "dos a thafi y cleddyf i'r dwfr." Aeth yntau, ond yr oedd y cleddyf mor hardd fel na fedrai yn ei fyw ei daflu i'r dwfr; a daeth yn ol yr ail waith. "A deflaist ti'r cleddyf i'r dwfr?" ebai'r brenin fel cynt. "Do," meddai yntau. "Beth welaist ti?" "Ni welais ddim ond y tonau yn ymlid eu gilydd tua'r lan." "Yr wyt yn dweyd anwiredd," meddai Arthur; "dos, a thafi y cleddyf, neu mi a fyddaf farw cyn y gwnei." Yna aeth y milwr, a thafodd y cleddyf i ganol y llyn; ac wele law wen yn dyfod o'r llyn ac yn cydio ynddo. Daeth at Arthur, a gofynodd y brenin eto beth a welodd. "Llaw wen," ebai yntau, "yn d'od o'r llyn, ac yn cydio yn ngharn y cleddyf." "Ti ddywedaist y gwir o'r diwedd," meddai Arthur; "cludwch fi at fin y dw'r." A hwy a'i cludasant ef, ac wele long o wydr, a thair brenines ynddi, yn dyfod tua'r lan. Rhoddwyd Arthur Fawr ar fwrdd y llong, a hwyliodd y tair brenines ef i ffwrdd. Dywedai y Cymry ei fod wedi myned i Ynys Afallon i wella ei glwyfau, ac y delai yn ol at ei filwyr drachefn, a'i gleddyf yn ei law. Buont yn dysgwyl am dano am ganoedd o flynyddoedd, i'w harwain yn erbyn y Saeson, ac i enill eu gwlad oddiarnynt. Ond ni ddaeth Arthur byth yn ol.

7.—CLAWDD OFFA (OFFA'S DYKE).

<i>er mwyn,</i> that		<i>ni chai yr un Cymro,</i>
<i>er gwneud,</i> notwithstanding		Welshman should
the making		<i>Ner,</i> God

Trugarhaodd Duw wrth bobl yr ynys hon. Daeth pregethwyr o Rufain ac o'r Iwerddon i Loegr, a daeth y Saeson yn ddilynwyr Iesu Grist. O herwydd hyny buont yn dynerach wrth y Cymry, a pheidiodd y rhyfel. Rhanwyd yr ynys rhyngddynt. Yr oedd y Saeson i gael Lloegr, a'r Cymry i gael Cymru. Ac er mwyn i bawb wybod pa le yr oedd y terfyn, cododd Offa, brenin Lloegr, glawdd o bridd. Yr oedd y clawdd yn estyn o enau'r afon Dyfrdwy, yn y gogledd, hyd enau'r afon Wy, yn y de—Lloegr ar yr un tu, a Chymru ar y tu arall. Yr oedd yno ddau glawdd, y naill yn ochr y llall. Rhyngddynt yr oedd llanerch werdd, yr hon na pherthynai i neb. Ni chai yr un Cymro ddyfod dros y clawdd i Loegr. Saethai y Sais ef os deuai. Ac os deuai y Sais dros y clawdd i Gymru, yr oedd gan y Cymro hawl i'w saethu yntau. Ond caent fyned at eu gilydd i'r llanerch werdd mewn heddwch, i siarad, i brynu, ac i werthu.

Er gwneud y clawdd, byddai rhyfel yn tori allan weithiau. Deuai rhai o'r Saeson dros y terfyn i Gymru, i ladrata defaid neu gwn hela; a byddai y Cymry, y mae'n rhaid dweyd, yn myned drosodd i Loegr i ladrata gwartheg y Saeson, ac i roddi eu gwair a'u hŷd ar dân.

Felly collodd y Cymry lawer o'u gwlad; ond yr oedd tri pheth na fedrai'r Saeson fyned â hwy oddiarnynt—eu crefydd, Cymru, a'r iaith Gymraeg. Fel y dywedodd Taliesin:—

“Eu Ner a folant,
 Eu hiaith a gadwant,
 Eu tir a gollant,
 Ond Gwyllt Walia!”

8.—TELYN Y MILWR (THE SOLDIER'S HARP).

Y mae gwlad Canaan, lle y ganwyd Iesu Grist, yn rhell iawn oddiyma. Y mae llawer tir a llawer môr rhyngom ni â hi. Yno y mae Caersalem, a Bethlehem, a Chalfaria; a byddai llawer o bererinion yn myned yno i weled y manau y bu Iesu Grist ynddynt.

Ond daeth cenedl o bobl greulon o'r anialwch i fyw i'r wlad hono, y rhai nad oeddynt yn caru yr Iesu, a llawer o niwed a wnaethant i'r Cristionogion. Pan glywsant hyny, aeth lluoedd o filwyr o Loegr a Ffrainc yno i yru y genedl greulon hono o'r wlad. Yr oedd gan bob milwr lun croes ar ei darian, ac am hyny gelwid y rhyfeloedd hyny yn Rhyfeloedd y Groes.

Aeth rhai o Gymru i'r rhyfel hefyd. Un o honynt oedd Hedd Fychan. Gadawodd ei gartref, a'i wraig, a'i blant, a'i delyn, ar ei ol, ac aeth dros y môr i'r rhyfel. Aeth llawer o amser heibio, ac yntau heb dd'od yn ol. Yr oedd y llwch ar ei delyn, ac ni fedrai neb ei chwareu ond efe. Yr oedd ei wraig a'i blant yn dechreu ofni na ddeuai byth, ac nid oedd ganddynt neb i'w hamddiffyn. Yr oedd dyn cryf yn byw ar yr un mynydd a hwynt, a'i enw Garw Llwyd; a dywedodd fod yn rhaid i'r wraig ei briodi ef, a rhoddi cartref Hedd Fychan iddo. Noson y briodas ddaeth—y fam a'r plant yn wylo, ac nid oedd neb i achub eu cam.

Daeth teithiwr ar ei farch at y drws i ofyn am lety. Gofynwyd iddo ddyfod i mewn i wledd y briodas. Daeth yntau. Yr oedd ei wisg ryfel am dano, ac nid oedd neb yn ei adnabod. Gwelodd yr hen delyn, a gofynodd a ga'i chwareu alaw arni. "Cewch," ebai Garw Llwyd; a dyma ef yn chwareu yr alaw na fedrai neb ei chwareu ond Hedd Fychan. Wrth ei glywed yn chwareu hono, gwelodd ei wraig a'i blant mai Hedd Fychan oedd wedi d'od adre'n fyw. Rhedasant ato, gan ymaflyd am ei wddf a'i gusanu. Ond diangodd Garw Llwyd am ei einioes y noson hono.

9.—MAES CROGEN (THE FIELD OF CROGEN).

Dyma enw maes brwydr. Gorchfygodd Owen Gwynedd y Saeson ar faes Crogen. Ond bu llawer Cymro ieuanc farw yno wrth ymladd dros ei wlad; a phan oedd yr adar yn canu boreu dranoeth, daeth mam i chwilio am gorph ei bachgen.]

<i>maes brwydr,</i>	a battlefield		<i>maes y frwydr,</i>	the field of
<i>'roedd, yr oedd,</i>	there was			battle

I.

Y frwydr aeth drosodd o'r diwedd,
 Gorchfygwyd y gelyn yn llwyr,
 A'r ser edrychasant ar Wynedd,
 A'r boreu ddilynodd yr hwyr;
 'Roedd yno rai ieuainc yn gorwedd,
 Am sefyll dros Wynedd yn bur,
 Yn fore daeth mamau a gwragedd
 I chwilio am feibion a gwyr.

II.

Fe ganai mwyalchen, er hyny,
 Mewn derwen ar lanerch y gad,
 Tra'r coedydd a'r gwrychoedd yn lledu
 Eu breichiau dros filwyr ein gwlad;
 Gorweddai gwr ieuanc yn welw,
 Fe drengodd bachgenyn gerllaw,
 Tra'i dad wrth ei ochr yn farw,
 A'i gleddyf yn fyw yn ei law!

III.

Gan frodyr, chwiorydd, a mamau,
 Fe gasglwyd y meirwon yn nghyd;
 Agorwyd y bedd ac fe'i cauwyd,
 Ond canai'r fwyalchen o hyd.
 Bu brwydr Maes Crogen yn chwerw,
 Gwyn fyd yr aderyn nas gwyr
 Am alar y byw am y meirw,
 Y boreu ddilynodd yr hwyr!

10.--Y TEITHWYR A'R ARTH (THE TRAVELLERS
AND THE BEAR).

<i>nac ofna,</i>	fear not
<i>y mae genyf,</i>	there is with me, I have
<i>yr un,</i>	any
<i>ar ei hyd,</i>	at full length
<i>dododd, gosododd,</i>	placed
<i>llestri gweigion,</i>	empty vessels

Yr oedd dau gyfaill unwaith yn myned trwy goedwig. Cofiodd un o honynt fod y lle yn enwog am eirth, a dywedodd wrth ei gyfaill:—

“Beth a ddaw o honom os daw arth i'n cyfarfod?”

“Nac ofna,” oedd yr ateb; “y mae genyf fraich gref a chalon ddewr. Nyni a ymladdwn ochr yn ochr, ac ni wna yr un niwed i ni.”

Ar hyny clywsant swm mewn llwyn gerllaw, a gwelsant arth yn dyfod allan o hono tuag atynt. Dringodd y gwr ymfrostgar i ben coeden, a gadawodd ei gyfaill wrtho ei hun i wynebu y perygl. Syrthiodd hwn ar ei hyd ar y ddaear, ac ataliodd ei anadl fel pe byddai wedi marw.

Daeth yr arth ato. Cerddodd o'i amgylch, a gosododd ei ffroen wrth ei enau. Meddyliai y creadur mai dyn marw oedd, ac yn ol yr aeth i'r goedwig. Wedi iddo fyned ddigon pell, disgynodd y broliwr, a gofynodd i'w gyfaill:—

“Pa beth ddywedodd yr arth wrthyt pan y dododd ei enau mor agos i dy glust?”

Atebodd yntau, “Cynghorodd fi i beidio ymddiried mewn dyn ymfrostgar fel tydi.”

Nid y rhai mwyaf eu swm sydd bob amser yn gwneud mwyaf o waith. Fel y dywed yr hen ddiareb, “Mwyaf swm—llestri gweigion.”

11.—Y BLAIDD A'R OEN (THE WOLF AND THE LAMB).

o'r diwedd, (literally, from the end), at last
gan hyny, therefore
yr un, the same

Un diwrnod poeth yn yr haf, daeth blaidd ac oen at yr an nant i dori eu syched. Ar ol yfed, dechreuodd y blaidd deimlo yn newynog. Syrthiodd ei lygaid ar yr oen oedd yn yfed yr ochr isaf iddo. Meddylodd ynddo ei hun y buasai yr oen yn giniaw foethus.

Yna dechreuodd chwilio am achos cwerylu â'r creadur diniwed. O'r diwedd, meddai ef wrth yr oen :—

“Paham y meiddi gynhyrfu y dwfr wyf fi yn ei yfed?”

“Syr,” ebai yr oen, mewn llais crynedig, “sut y gall hyny fod? Nid yw y dwfr yn rhedeg oddiwrthyf fi atoch chwi, ond daw oddiwrthych chwi ataf fi.”

Yr oedd yr ateb mor rhesymol, ac mor amlwg, fel na feiddiai hyd yn nod y blaidd ei amheu.

Ond nid oedd y blaidd yn myned i roddi i fyny ei giniaw am ddim. Felly efe a geisiodd am ryw achos arall i gyfiawnhau ei fwriad drwg, ac meddai :—

“Tydi yw yr hwn a amcanodd dori fy nghymeriad i oddeutu blwyddyn yn ol.”

“Nid ydwyf fi ond tri mis oed, Syr ; gan hyny, sut y gallaswn amcanu dori eich cymeriad naw mis cyn fy ngeni?” oedd ateb yr oen.

Pan welodd y blaidd fod yr oen yn well rhesymwr nag ef, efe a ffyrnogodd yn fawr iawn, ac meddai :—

“Os nad tydi ydoedd, dy dad oedd, ac y mae yn rhaid i ti dalu am bechod dy dad.”

Ar hyn, neidiodd ar yr oen, a llarpiodd ef mewn eiliad.

12.—LLYTHYRAU CYMERADWYAETH (LETTERS OF RECOMMENDATION).

<i>bod eisieu bachgen arno</i> (literally, that the want of a boy was on him), that he wanted a boy		<i>gan ddanfon</i> , sending <i>gan gyfaill</i> , by a friend <i>i'm</i> , to my
---	--	--

Anfonodd cyfreithwr i newyddiadur i ddweyd fod eisieu bachgen arno i'w gynorthwyo yn ei swyddfa. Daeth haner cant o fechgyn i gynyg eu hunain. O'u plith dewisodd un, gan ddanfon y lleill i ffwrdd. Gofynwyd iddo gan gyfaill oedd yn y swyddfa ar y pryd, paham y dewisodd y bachgen hwnw yn hytrach na'r lleill, gan nad oedd ganddo un llythyr cymeradwyaeth fel yr oedd gan bob un o'r bechgyn ereill.

“Nid oedd ef heb gymeradwyaeth,” oedd yr ateb.

“Pan ddaeth i mewn, sychodd ei esgidiau, a chauodd y drws ar ei ol. Yr oedd hyn yn brawf ei fod yn fachgen cryno a threfnus.

“Rhoddodd ei gadair i'r hen wr cloff a ddaeth i mewn ar ei ol. Yr oedd hyn yn profi ei fod yn fwyn ac yn feddylgar.

“Tynodd ei het pan ddaeth i mewn, ac atebodd fy ngofyniadau yn barchus, yr hyn a brofai ei fod yn foengar.

“Cododd y llyfr a osodais yn fwriadol ar y llawr, yn lle camu drosto fel y gwnaeth y lleill. Profodd wrth hyn ei fod yn fachgen gofalus.

“Arosodd ei dro yn amyneddgar, yn lle gwthio fel rhai o'r lleill, a dangosodd ei fod yn wylaidd.

“Sylwais fod ei wisg yn lân, ei wallt yn gryno, ei ddanedd yn wynion, a'r ewinedd wedi eu glanhau.

“Onid yw y pethau hyn yn gymeradwyaethau? I'm tyb i y maent, ac yn well na llwyth o llythrau.”

13.—Y PLANT A'R CROCHANAID AUR (THE CHILDREN AND THE POT OF GOLD).

aeth â hwynt, went with them, took them.

Clywodd dau blentyn eu mam yn dywedyd unwaith wrth gyfeilles iddi, bod crochan o aur i'w gael yn y fan lle y cyffwrdd yr enfys â'r ddaear.

Un diwrnod gwlyb, fel yr oedd y brawd a'r chwaer yn gwasgu eu trwynau yn erbyn y ffenestr, gofynodd Ioan (dyna oedd enw y brawd) i Mair, ei chwaer, a garai hi ddyfod gydag ef i chwilio am y crochan a'r aur.

Atebodd Mair y buasai yn falch iawn i fyned gyda Ioan, a rhedodd i geisio ei het fel y gallent fyned heb oedi.

“Na,” meddai Ioan, “awn ni ddim heno. Y mae y nos ar ddyfod. Nyni a godwn yn gynar boreu yfory, cyn i nhad a mam ddeffro, ac fe ddeuwn yn ol erbyn boreu-fwyd. O, fel yr agorant eu llygaid pan welant y crochan mawr yn llawn o aur melyn!”

Curodd y plant eu dwylaw wrth feddwl am y cyfoeth oedd yn eu haros.

Tranoeth, fel yr oedd y wawr yn tori, yr oedd Ioan yn curo yn ddystaw wrth ddrws ystafell ei chwaer. Neidiodd Mair o'i gwely, ac yr oedd y ddau yn barod i gychwyn mewn ychydig fynudau. Aethant i lawr y grisiau ar flaenion eu traed, rhag deffro eu rhieni. Wedi agor a chau y drws yn ddystaw, dechreusant redeg am y cyflymaf, pob un yn meddwl ynddo ei hun am fod y cyntaf i osod ei law ar y crochan.

Nid oedd enfys i'w harwain mor foreu a hyn, ond cofiodd Ioan mai ar ben y bryn oedd o'u blaen y gwelodd yr enfys y tro diweddaf, ac i ben y bryn y penderfynasant fyned.

Ond mae yn hawddach dweyd bryn na'i ddringo, ac felly cafodd y ddau blentyn hyn. Wedi dringo am beth amser, ac eto yn mhell o ben y bryn, dechreuodd

Mair deimlo'n flinedig. Nid oedd ei brawd mor fywiog ag oedd pan yn cau drws tŷ ei dad.

Yr oeddynt hefyd yn teimlo chwant bwyd, a chafodd y plant nad oedd y gwaith oeddynt wedi ymgymeryd âg ef mor hawdd ag y meddylient ei fod.

Pan welodd Ioan ei chwaer yn llefain, torodd yntau allan i wylo, ac eisteddodd y ddau ar ymyl y ffordd, a gofident eu bod wedi cychwyn ar neges mor anhawdd ei gwneuthur.

Daeth amaethwr heibio i'r fan lle yr eisteddent, a chymerodd hwynt gydag ef i'w dŷ. Rhoddodd ei wraig fara a llaeth i'r plant, a phan gawsant eu digoni, dechreuasant siarad. Nis gallai yr amaethwr beidio a chwerthin pan glywodd natur y neges ar yr hon yr oedd y plant wedi cychwyn o'u cartref.

Wedi iddynt orphwys ychydig, aeth y ffermwr â hwynt yn ol i dŷ eu tad. Mawr oedd llawenydd y fam pan welodd y crwydriaid yn dyfod at y tŷ. Ni fu Ioan a Mair mor ffol a myned i chwilio am y crochan aur yr ail waith.

14.—Y TEITHIWR A'R MWNCIOD (THE TRAVELLER AND THE MONKEYS).

yn mhen tipyn, in a little while | *er mwyn*, for the purpose of

